OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 545 (Cy.58)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Bwyd (Diwygio Amrywiol a Dirymu) (Cymru) 2013

Gwnaed - - - -	*6 Mawrth 2013*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*11 Mawrth 2013*
Yn dod i rym - -	*6 Ebrill 2013*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1) a (3), 17(1), 26(1) a (3) a 48(1) (c) a (4) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

Yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, maent wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn pennu'r gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**), cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus agored a thryloyw yn ystod cyfnod llunio a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd (Diwygio Amrywiol a Dirymu) (Cymru) 2013, maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 6 Ebrill 2013.

Diwygio Rheoliadau Labelu Bwyd 1996

2.—(1) Mae Rheoliadau Labelu Bwyd 1996(**4**) wedi eu diwygio yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn rheoliad 50 (darpariaeth drosiannol), yn lle is-baragraff (b) o baragraff (15) rhodder y canlynol—

(**1**) 1990 p.16.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers" i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28), a'u trosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 c. 32).

(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 596/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n addasu nifer o offerynnau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn y cyfeirir ati yn Erthygl 251 o'r Cytuniad i Benderfyniad y Cyngor 1999/468/EC o ran y weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu: Addasiad i'r weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu — Rhan Pedwar (OJ Rhif L 188, 18.7.2009, t.14).

(**4**) O.S. 1996/1499, a'r offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2008/1268 (Cy.128); O.S. 2009/2880 (Cy.253) ac O.S. 2011/465(Cy.70) .